**Disgrifiad Swydd Technegydd Cynnal a Chadw (Adeilad)**

**Lleoliad:** Techniquest, Bae Caerdydd
**Contract:** Llawn amser, Parhaol (39 awr yr wythnos, ar benwythnosau, y tu allan i oriau a Gwyliau Banc ar rota 7 diwrnod)
**Yn adrodd i'r:** Rheolwr Cynnal a Chadw ac Ystadau
**Staff sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r swydd:** Neb
**Cyflog:** £24,875 pro-rata

Rydyn ni'n chwilio am Dechnegydd Cynnal a Chadw (Adeilad) medrus a hyblyg i gefnogi'r gwaith bob dydd o gynnal a chadw'n hadeilad, ein harddangosfeydd a'n gofodau awyr agored. Mae'r swydd hon yn hanfodol i sicrhau amgylchedd diogel, effeithlon a chroesawgar i'n hymwelwyr drwy oruchwylio tasgau cynnal a chadw dyddiol, rheoli systemau adeiladu hanfodol a chynnal gwiriadau diogelwch cyson. Mae'r cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys gwneud diagnosis o namau a'u hatgyweirio, cynnal a chadw offer technegol ac offer gweithdy, a chefnogi'r gwaith o sicrhau bod ein harddangosfeydd rhyngweithiol yn ddibynadwy ac yn edrych yn dda.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol ystod eang o sgiliau cynnal a chadw ar draws disgyblaethau fel plymio, trydan, gwaith saer a garddio. Bydd ganddyn nhw hefyd gymwysterau crefft perthnasol a phrofiad o weithio mewn amgylchedd byw sy'n wynebu cwsmeriaid. Mae dealltwriaeth gref o arferion iechyd a diogelwch, y gallu i weithio'n annibynnol, a sgiliau trefnu a rheoli amser effeithiol yn hanfodol.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

- Cynnal gweithgareddau cynnal a chadw ymatebol ac wedi'u cynllunio bob dydd ar draws safle Techniquest, gan gynnwys offer, seilwaith a defnydd yr adeilad.
- Rheoli gwasanaethau adeiladu gan gynnwys gwresogi, goleuadau, dŵr, plymio ac awyru i sicrhau'r perfformiad a'r effeithlonrwydd ynni gorau posib drwy'r System Rheoli Adeiladau (BMS).
- Gwneud diagnosis o namau a chwblhau atgyweiriadau amserol i gynnal safonau gweithredol uchel ar draws pob rhan o'r safle.
- Cwblhau gwiriadau arferol: gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol gan gynnwys gwiriadau Iechyd a Diogelwch dyddiol cyn i'r Ganolfan agor i'r cyhoedd.
- Monitro arddangosfeydd a sicrhau eu bod yn ddibynadwy, gan nodi gwaith adfer, ac amserlennu gwaith adfer yn ystod oriau nad ydynt yn weithredol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel, yn hygyrch ac yn ddeniadol.
- Profi, gwneud diagnosis, atgyweirio a chynnal a chadw arddangosfeydd, gan gynnwys archebu a rheoli partiau a nwyddau traul yn ôl yr angen.
- Cynnal a chadw'r gweithdy a'r holl gyfarpar ac offer, gan sicrhau eu bod mewn cyflwr diogel ac yn gweithio a bod y gofod yn lân ac wedi'i drefnu'n dda.
- Cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd gan gynnwys profion larwm tân, monitro tymheredd dŵr a gwiriadau clorineiddio.
- Cynnal a chadw ardaloedd awyr agored, gan gynnwys tiroedd a dyletswyddau tirlunio.
- Bwydo a chynnal anifeiliaid byw ar y safle, gan gynnwys morgrug a physgod, yn unol â safonau lles.

**Cyfrifoldebau Ychwanegol**

- Cynnal cofnodion technegol cywir, gan gynnwys dogfennaeth Iechyd a Diogelwch at ddibenion archwilio a darparu adroddiadau cywir a chlir i'r Cyfarwyddwr Profiadau yn ôl y gofyn.
- Cydweithio â'r Rheolwr Cynnal a Chadw ac Ystadau i gydlynu gwaith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio sy'n cael ei gyflawni gan gontractwyr trydydd parti.
- Cynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) blynyddol — darperir hyfforddiant os nad oes gennych ardystiad ar hyn o bryd.
- Cydymffurfio â phob gofyniad Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys cynnal asesiadau risg, asesiadau COSHH a chymryd rhan mewn hyfforddiant ac archwiliadau perthnasol.
- Gweithio'n rhagweithiol o fewn Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad Techniquest.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys uchod ond sy'n gyson â'r swydd.

**Pam ymuno â ni?**

- Byddwch yn rhan o sefydliad sy'n cael ei arwain gan genhadaeth sydd wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r cyhoedd a dysgu gwyddoniaeth.
- Byddwch yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o siapio'r amgylchedd sy'n cael ei brofi gan filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.
- Byddwch yn gweithio mewn tîm deinamig, cefnogol lle mae eich arbenigedd yn cael ei werthfawrogi a'ch effaith yn weladwy.

**Mae'r buddion yn cynnwys:**

- 25 diwrnod o wyliau blynyddol + 8 gŵyl banc
- Cynllun tâl salwch
- Budd-dal marw yn y swydd
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Gostyngiad yn y caffi sydd ar y safle
- DPP parhaus a chyfleoedd hyfforddi
- Pensiwn
- Cynllun beicio i'r gwaith
- Parcio am ddim
- Tocynnau staff i Techniquest a'i digwyddiadau arbennig

*Mae'r disgrifiad swydd yma'n rhoi syniad o ystod dyletswyddau a chyfrifoldebau presennol y swydd, ond nid yw'n gynhwysfawr. Mae'n anochel y bydd y dyletswyddau'n newid wrth i'r swydd ddatblygu, ac mae'n hanfodol, felly, y dylid ei hystyried gyda rhywfaint o hyblygrwydd, fel y gellir diwallu anghenion ac amgylchiadau sy'n newid, a bydd pob newid yn cael ei drafod yn llawn.*

*Natur y gwaith yw bod tasgau a chyfrifoldebau, yn aml iawn, yn amrywiol ac yn anrhagweladwy. Felly mae disgwyl i bob gweithiwr weithio mewn ffordd hyblyg ac efallai y bydd rhaid iddynt ymgymryd â thasgau sydd heb eu cynnwys yn benodol yn eu disgrifiad swydd.*

**Manyleb yr unigolyn**

| **Addysg / Sgiliau / Galluoedd** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Amlddawnus gyda chymwysterau crefft | ✓ | |
| Tystiolaeth o brofiad yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau cynnal a chadw ac atgyweirio mewn amgylchedd gweithredol, byw. | ✓ | |
| Profiad o wneud diagnosis o namau a chwblhau atgyweiriadau ar draws nifer o systemau adeiladu. | ✓ | |
| Profiad o reoli a chynnal a chadw gweithdy a’r offer cysylltiedig. | ✓ | |
| Dealltwriaeth ymarferol gref o ofynion Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys asesu risg a dogfennaeth. | ✓ | |
| Profiad o gyd-drafod gyda chontractwyr trydydd parti a'u goruchwylio. | ✓ | |
| Profiad o weithio'n ddiogel ar uchder, gan ddefnyddio offer a rheolyddion priodol. | ✓ | |
| Sgiliau gwaith cynnal a chadw cyffredinol eang ar draws sawl disgyblaeth: plymio, gwaith saer, trydanol, mecanyddol, peintio a garddio. | ✓ | |
| Yn gallu gweithio mewn tîm gyda'r gallu i gyfathrebu a chydweithio'n effeithiol ar draws adrannau. | ✓ | |
| Trefnus a gallu blaenoriaethu tasgau'n annibynnol mewn amgylchedd prysur a deinamig. | ✓ | |
| Sylw rhagorol i fanylion a sgiliau datrys problemau. | ✓ | |
| Trwydded yrru ddilys y Deyrnas Unedig | ✓ | |
| Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ond ddim yn hanfodol | | ✓ |
| Trwydded IPAF neu drwydded gyfatebol i weithredu Jac Codi Ceirios/Llwyfannau Gwaith Uchel Symudol (dymunol). | | ✓ |